

# Y Cynghorydd / Councillor

## Dafydd Meurig

### Ward Arllechwedd

Ein Cyf / Our Ref: **DM/gmo**  
Eich Cyf / Your Ref:

Tamsin Davies  
Cadeirydd Grŵp Cymunedau Cynaliadwy  
Cymdeithas yr Iaith  
Ystafell 5  
Y Cambria  
Rhodfa'r Môr  
Aberystwyth  
SY23 2AZ

24 Medi, 2015

Annwyl Ms Davies

#### **BIL CYNLLUNIO**

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 19 Mehefin, 2015 gydag ymddiheuriadau am yr oedi a achoswyd gan amryfusedd ar ein rhan.

Rwyf innau hefyd yn croesawu'r consesiynau parthed yr Iaith Gymraeg, yn enwedig y cymal sy'n sefydlu'r Gymraeg fel ystyriaeth berthnasol statudol a oedd yn rhan o ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad. Mae'r ychwanegiadau i'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i'r gwaith o lunio cynllun datblygu, ac i'r gwaith o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i Awdurdod Cynllunio Gwynedd roi ystyriaeth lawn i Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd, i ganllawiau cynllunio atodol amrywiol, yn ogystal â materion cynllunio perthnasol eraill, wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio.

Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Unedol (fel sawl cynllun cyn hynny yng Ngwynedd) adnabuwyd mewn arolwg o'r materion allai gael effaith ar ddatblygiad yr ardal - neu y dylid rhoi sylw iddynt wrth gynllunio ar gyfer yr ardal - bod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o gymeriad ardal y Cynllun. Cafodd nifer o bapurau testun eu cyhoeddi i gofnodi casgliadau'r gwaith arolwg.

Felly, ar sail hynny, un o amcanion y Cynllun Datblygu Unedol yw "sicrhau bod asedau amgylcheddol a diwylliannol lleol a byd-eang yn cael eu parchu a bod difrod amgylcheddol neu ddiwylliannol yn cael ei leihau" (tudalen 28 yn y Datganiad Ysgrifenedig). Er mwyn cyfarch yr amcan yma mae polisiâu A1 ac A2 yn nodi'r angen am wybodaeth ddigonol i allu gwneud penderfyniad ar gais cynllunio, ac yn nodi y gellir gwrthod cais cynllunio am ddatblygiad a fyddai oherwydd ei faint, graddfa neu ei leoliad yn achosi niwed arwyddocaol i gydlynid cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau (tudalen 29 a 30 y Datganiad Ysgrifenedig).

Isfryn  
Llanllechid  
Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3LB

# Y Cynghorydd / Councillor

## Dafydd Meurig

### Ward Arllechwedd

Felly, mae'r iaith Gymraeg eisoes yn ystyriaeth cynllunio berthnasol yn ardal yr Awdurdod Cynllunio (sef y rhan honno o Wynedd sydd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol Eryri).

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r iaith Gymraeg yn cofnodi'r dystiolaeth oedd ar gael ar y pryd (2009) o ran yr iaith Gymraeg yn y Sir. Mae hefyd yn adnabod trothwyon pryd fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn disgwyl derbyn tystiolaeth gan yr ymgeisydd am ganiatâd cynllunio. Disgwylir i'r wybodaeth gael ei gyflwyno ar ffurf Datganiad Ieithyddol a Chymunedol neu Asesiad Effaith Ieithyddol (p'run bynnag sydd fwyaf addas). Mae'r Canllawiau yn adnabod y ffactorau a allai gyfrannu at effeithio'n bositif neu negyddol ar yr iaith Gymraeg (tudalen 10 & 11 o'r Canllawiau).

Ers cyhoeddi'r CCA, mae gwybodaeth o Gyfrifiad 2011 wedi cael ei ryddhau. Mae gwybodaeth Cyfrifiad 2011 ar lefel sirol a ward am sefyllfa'r iaith wedi ei gynnwys ym Mhapur Testun 10A Proffil Ieithyddol Gwynedd (2014). Er mai Papur Testun a gyhoeddwyd wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (a fydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Unedol ar ôl iddo gael ei fabwysiadu) ydi Papur Testun 10A, mae'r dystiolaeth yn berthnasol i ddarpar ymgeisydd wrth baratoi cais cynllunio ac i'r gwaith asesu ceisiadau cynllunio. Mae adroddiadau am geisiadau cynllunio yn cofnodi'r gwaith o bwysu a mesur yr ystyriaethau cynllunio perthnasol i gyd cyn dod i gasgliad a gwneud argymhellion.

Nid ydym wedi mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd eto. Rhagwelir y byddwn yn gwneud hynny yn fuan yn 2017 ar ôl casgliadau Archwiliad Cyhoeddus o'r Cynllun. Bydd y dogfennau perthnasol a gaiff eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Cynllunio yn gynnar yn 2016 ar gyfer hwyluso Archwiliad Cyhoeddus y Cynllun yn cydnabod bodolaeth y Ddeddf Cynllunio (Cymru).

Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - y fersiwn Adnau, mae'r Cyngor wedi adnabod cyfres o CCA diwygiedig neu newydd a fydd eu hangen (Atodiad 9). Fel gyda'r Cynllun Datblygu Unedol presennol, pwrpas CCA fydd i gynorthwyo darpar ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio i roi cais cynllunio o safon briodol i mewn ac i gynorthwyo'r Awdurdod Cynllunio Lleol i asesu'r wybodaeth a dderbynnir i helpu i ddod i gasgliad os ydi datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio gyda strategaeth a pholisi(au) perthnasol y Cynllun. O ran y berthynas rhwng y Cynllun (a datblygiad) a'r iaith Gymraeg gwneir nifer o ragdybiau am y math o ddatblygiad a allai helpu i gynnal neu wella sefyllfa'r iaith Gymraeg. Byddwn yn adolygu'r CCA: Cynllunio a'r iaith Gymraeg er mwyn datblygu CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Unigryw a Chynaliadwy i atgyfnerthu'r polisïau tai, economi a chyfleusterau cymunedol. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn annog trafodaeth cyn cyflwyno cais cynllunio ac yn darparu deunydd er mwyn ceisio sicrhau y derbynnir cynigion datblygu o ansawdd dda iawn. Bydd y CCA arfaethedig hefyd yn tynnu sylw darpar ymgeisydd i ddisgwyliadau'r Awdurdod Cynllunio Lleol am y wybodaeth a fydd ei angen gyda chais cynllunio a fydd yn ymddangos yn hyrwyddo datblygiad na fydd yn gyson a'r rhagdybiau a gafodd eu gwneud wrth lunio polisïau, e.e. oherwydd ei leoliad, graddfa'r datblygiad ar safle neu o fewn anheddle, math o ddatblygiad.

Isfryn  
Llanllechid  
Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3LB

# Y Cynghorydd / Councillor

Dafydd Meurig

Ward Arllechwedd

Wedi i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gael ei fabwysiadu yn gynnar yn 2017 bydd y Cyngor yn monitro datblygiad yn yr ardal yn erbyn y fframwaith fonitro a fydd wedi cael ei osod yn y Cynllun terfynol. Bydd gwaith monitro blynyddol yn sicrhau bod y wybodaeth am faterion sy'n bwysig i'r ardal yn cael ei gadw mor gyfredol â phosib. Byddwn yn trafod cynnwys y fframwaith fonitro gyda Hunaniaeth (a Menter Iaith Ynys Môn/ Fforwm Iaith Môn), yn ogystal â thrafod sut i wneud y defnydd gorau o ffynonellau gwybodaeth am gymunedau'r ardal. Yn unol â rheoliadau sy'n ymwneud a pharatoi cynlluniau datblygu lleol, byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol a fydd yn cofnodi casgliad y gwaith monitro. Byddwn yn adolygu'r Cynllun ymhen 4 mlynedd o ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun neu'n gynharach os fydd y gwaith monitro yn dangos bod angen gwneud hynny.

Yn gywir



**Cynghorydd Dafydd Meurig**  
**Aelod Cabinet Rheoleiddio**

*Copi i: Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd*

Isfryn  
Llanllechid  
Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3LB